

Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mehefin 12fed 2018 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Gwynedd Jones (Cadeirydd), Geraint Jones, Euros Puw, Huw Charles, Gwynfryn Williams, Arwel Davies, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Jean Roberts, Geraint Davies a Rhys Richards.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mai a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

Adroddodd y clerch fod y camau cyntaf wedi eu cymryd i sicrhau diogelwch data'r cynghorwyr, staff a'r cyhoedd. Mynegwyd rhwystredigaeth fod cynlleied o arweiniad ar gael a'r diffyg deunydd yn y Gymraeg. Eglurodd y clerch y byddai'n parhau i weithio ar y polisiâu, canllawiau ychwanegol a oedd eu hangen.

b) Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-

i) Ffordd o Parc i gyfeiriad Pant Neuadd – cafwyd cadarnhad fod y safle wedi cael ei ddiogelu ac roedd cyfarwyddiadau mewn lle i'r gweithlu atgyweirio'r lleoliad.

ii) Goryrru trwy bentref Parc - cafwyd cadarnhad fod yr Adain Draffig yng Nghaernarfon wedi ystyried cais y Cyngor i gael gostyngiad cyflymder o 20 m.y.a. trwy'r pentref ond gan nad oedd ysgol yn y pentref nid oedd posib cefnogi'r cais. Nodwyd mai cyfrifoldeb yr Heddlu oedd delio gyda materion goryrru gan mai nhw sydd a'r pwerau perthnasol i orfodi cyfyngiadau cyflymder.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd

i) Rhaglen waith yr adran Priffyrdd ar gyfer mis Mehefin.

b) Un Llais Cymru

i) Agenda cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd a gynhaliwyd yn Neuadd Gymunedol Llanbedr ar y 23/5/18 a chofnodion y cyfarfod blaenorol.

c) Cyfoeth Naturiol Cymru.

i) Diweddariad ynglŷn â'r cynlluniau i adnewyddu argloddiau Llyn Tegid.

ch) Cyngor Tref Y Bala

i) Derbyniwyd llythyr gan y Cyngor Tref yn mynegi eu pryder am ddiogelwch y cyhoedd oherwydd y goryrru ar yr A494 yn Llanycil. Cytunwyd yn unfrydol a phryderon y cyngor a gofynnwyd i'r clerch dynnu sylw'r Asiantaeth Cefnffyrdd i'r mater.

d) Corff Llywodraethol Ffederasiwn Cysgod y Foel.

Yn dilyn gohebiaeth flaenorol ynglŷn â chynrychiolaeth o'r Cyngor Cymuned ar y Corff Llywodraethol gofynnwyd barn ynglŷn â'r posibilrwydd o rannu term y llywodraethwyr rhwng Cynghorau Cymuned Llandderfel a Llanycil h.y. cynrychiolydd bob yn ail am ddwy flynedd yn lle pedair. Cytunwyd yn unfrydol i'r Corff Llywodraethol ofyn am gyngor pellach gan yr Awdurdod i'r syniad.

v) Ceisiadau Cynllunio.

i) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol a chytunwyd i'w cefnogi:-

NP5/72/118D – Gosod tanc olew. Bryn Goleu, Rhyduchaf

NP5/72/183D – Adeiladu estyniad i gefn adeilad allanol wedi ei drosi. Cefn Bodig, Parc

vi) Materion Ariannol.

i) Ffurflen Archwiliad Blynyddol.

Yn dilyn archwiliad trwyadl o gyfrifon y Cyngor, derbyniwyd adroddiad yr archwilwyr ariannol. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd mynegwyd eu sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu'r Cyngor Cymuned ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017-18. Cytunwyd yn unol â gofynion y datganiadau Cyfrifyddu a Llywodraethu yn y ffurflen Archwiliad Blynyddol. Adroddodd y clerc y byddai'n anfon y ffurflen a'r dogfennau perthnasol ymlaen i'r archwilwyr allanol.

vii) Unrhyw Fater Arall.

Cytunwyd i basio'r materion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-

1) Derbyniwyd nifer o gwynion nad oedd y glaswellt wedi cael ei dorri yng nghae chwarae Parc eleni.

Nodwyd hefyd fod cerbydau yn parcio o flaen giât y parc ac mi fyddai'n syniad i ofyn i Gyngor Gwynedd osod arwydd 'Dim Parcio' yno i sicrhau mynediad pan fydd angen torri'r glaswellt.

2) Derbyniwyd cwynion am gyflwr y ffordd rhwng Tŷ Isaf a Ty'n Bryn, Rhyduchaf a thwll yn y pant ger Tan Mynydd, Llidiardau.

3) Derbyniwyd cwynion fod mynediad i giât y llwybr troed ger y tai ar waelod rhiw pentref Rhyduchaf yn gyfyngedig ers i'r tir cae ei werthu gan Tai Cymunedol Gwynedd. Cytunwyd i dynnu sylw'r adran llwybrau cyhoeddus i'r mater.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos
Fawrth, Medi 11eg yn Neuadd
Maesywaen am 8.00 y.h.**